# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion CYP(3)-06-09

**Dyddiad: Dydd Mawrth 31 Mawrth 2009**
**Amser: 9.30am – 11.00am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones, (Cadeirydd) Llanelli
Christine Chapman, Cwm Cynon
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Rita Phillips, Dirprwy Glerc
Kathryn Potter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Piers Bisson, Pennaeth yr Is-adran Cynllunio Ariannol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Suzanne Chisholm, Pennaeth y Gangen Hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ruth Studley, Pennaeth Ystadegau Cyllid ac Allbwn y Sector Cyhoeddus, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Elin Gwynedd, Pennaeth yr Adran Eiriolaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Elizabeth Williams, Pennaeth Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Daeth ymddiheuriadau i law gan Lynne Neagle. Gweithredodd Ann Jones ar ei rhan fel dirprwy rheolaidd.

1.3 Daeth ymddiheuriadau i law hefyd gan Angela Burns.

1.4 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Gyllidebu ar gyfer Plant

**Papur: CYP(3)-06-09 (p1)**

2.1 Ymatebodd y Gweinidog a'i swyddogion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog, Piers Bisson, Suzanne Chisholm a Ruth Studley am fynychu cyfarfod y Pwyllgor.

### Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor: 'Darparu Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru'

**Papur: CYP(3)-06-09 (p2)**

3.1 Ymatebodd y Gweinidog a'i swyddogion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Camau gweithredu:

Y Gweinidog i gyflwyno gwybodaeth bellach ynghylch pa bryd ac ar ba lefel y cyflenwir gwasanaethau eirioli i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn 2009-10.

Y Gweinidog i gyflwyno gwybodaeth ar ddyraniadau'r gwariant o fewn Llinell Gwariant y Gyllideb ar gyfer Cwnsela ac Eiriolaeth.

Y Gweinidog i gyflwyno canllawiau i'r Pwyllgor ar y model ar gyfer cyflenwi gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc.

Y Gweinidog i gadarnhau a gafodd arian ei dynnu o'r grant untro a oedd ar gael i sefydlu'r consortia partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

3.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog, Elin Gwynedd ac Elizabeth Williams am fynychu cyfarfod y Pwyllgor.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i Ann Jones am weithredu fel dirprwy rheolaidd ar ran Lynne Neagle ac am ei hymrwymiad i waith y Pwyllgor.

**Cytunodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi), y byddai'n cynnal gweddill y cyfarfod yn breifat.**

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2009**